Law Commission

Reforming the law




# Apeliadau Troseddol

## Crynodeb o'r Papur Materion

# Y crynodeb hwn

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'r materion allweddol rydym yn eu trafod yn ein papur materion Apeliadau Troseddol. Mae'n egluro beth yw pwrpas y prosiect a'r materion rydym yn rhoi sylw iddynt.

Ynddo, rydym yn nodi nifer o gwestiynau rydym yn gofyn am ymatebion iddynt.

Ein nod yw sicrhau bod unrhyw un yn gallu darllen y crynodeb hwn ac ymgysylltu â'r materion allweddol rydym yn rhoi sylw iddynt ac ymateb i'r cwestiynau yn y ddogfen hon. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n hoffi rhannu eu barn ond sydd â llai o ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r materion mwy manwl yn y papur materion.

Os oes gan unigolion neu sefydliadau ddiddordeb neu arbenigedd penodol mewn unrhyw un neu bob un o'r meysydd rydym yn eu harchwilio, yna byddem yn eu hannog i ddarllen ac ymateb i'r papur materion llawn. Mae'n cynnwys trafodaeth fanylach ac mae rhai o'r cwestiynau'n fwy manwl.



| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth yw'r pwnc?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n llywodraethu apeliadau mewn achosion troseddol ac yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar sicrhau bod gan y llysoedd bwerau sy'n galluogi'r broses effeithiol, effeithlon a phriodol o ddatrys apeliadau. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw arbennig i anghysondebau, ansicrwydd a bylchau yn y gyfraith. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen diwygio'r gyfraith ac, os felly, sut. Mae ymgynghori yn elfen hollbwysig o'n gwaith. Rydym am i unrhyw argymhellion a wnawn yn y pen draw gael sylfaen dystiolaeth mor gryf â phosibl. |
| **Gan bwy rydym yn dymuno clywed?** | Hoffem glywed gan gynifer o randdeiliaid â phosibl, gan gynnwys ymarferwyr cyfraith trosedd, a phobl sydd â phrofiad o'r broses apeliadau troseddol. Rydym yn hapus i gael ymatebion gan bobl sydd wedi ceisio apelio, neu sy'n apelio ar hyn o bryd, yn erbyn eu heuogfarn neu eu dedfryd. Fodd bynnag, ni allwn gymryd rhan mewn achosion unigol. |
| **Ble allaf ddarllen y papur materion llawn?** | Mae'r papur materion llawn ar gael ar ein gwefan: **www.lawcom.gov.uk/project/criminal-appeals/** |

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 31 Hydref 2023. |
| **Sut i ymateb** | Os ydych chi'n ymateb i'r papur materion hyd llawn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: **https://consult.justice.gov.uk/law-commission/criminal-appeals**<br><br>Os ydych chi'n ymateb i'r cwestiynau yn y crynodeb hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: **https://consult.justice.gov.uk/law-commission/summary-criminal-appeals**<br><br>Fel arall, gallwch ymateb:<br><br>drwy e-bost **criminal.appeals@lawcommission.gov.uk**<br><br>drwy'r post at:<br>**Criminal Appeals Team, Law Commission,**<br>**1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG**<br><br>(Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd os oes modd i chi wneud hynny). |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Rydym yn bwriadu cyhoeddi papur ymgynghori yn 2024, a fydd yn cynnwys ystyriaeth fanylach o'r gyfraith, gan gynnwys rhai materion technegol nad ydynt yn cael sylw yn y papur hwn, a fydd yn cynnwys cynigion dros dro ar gyfer diwygio. Yna bydd ymgynghoriad pellach ar y papur hwnnw cyn i ni gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys yr argymhellion terfynol.<br><br>Y Llywodraeth fydd yn penderfynu a fydd yn gweithredu'r argymhellion.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd a sicrhau bod ymatebion ymgyngoreion yn aros yn anhysbys, ewch i'r papur materion llawn. |

# Cyflwyniad

Gall person sydd wedi'i gael yn euog o drosedd geisio herio naill ai ei euogfarn neu ei ddedfryd drwy apêl.

Mae gan apeliadau swyddogaeth gywiro bwysig i unigolion, boed hynny i gywiro camweinyddiad cyfiawnder, fel euogfarn rhywun sy'n ffeithiol ddieuog, neu gywiro gwall cyfreithiol, fel rhoi dedfryd fwy llym na'r hyn a ganiateir yn ôl y gyfraith.

Fodd bynnag, maent hefyd yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus pwysig, wrth sicrhau bod cyfraith trosedd yn cael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson ac yn rhagweladwy, ac wrth ddatblygu'r gyfraith gwlad.

Ym mis Gorffennaf 2022, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud ag apeliadau troseddol. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y prosiect hwn yn mynnu ein bod yn ystyried yr angen i ddiwygio'r gyfraith, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan lysoedd bwerau sy'n galluogi datrys apeliadau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn briodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes tystiolaeth bod y profion a ddefnyddir yn y Llys Apêl yn llesteirio'r broses o gywiro camweinyddiad cyfiawnder, ac a yw'r trefniadau presennol ar gyfer apeliadau o'r llys ynadon yn ddefnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r llys ac amser barnwrol.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwneud cynigion dros dro o blaid diwygio, nac yn dod i unrhyw gasgliadau ynghylch a yw diwygio'n angenrheidiol. Mae'r ymgynghoriad ar y papur materion hwn yn galw am dystiolaeth ynghylch yr angen am ddiwygio. Pan fydd ymatebwyr o blaid diwygio'r gyfraith mewn maes penodol, byddem yn croesawu cynigion penodol ar gyfer newid, fel y gellir asesu'r rhain ochr yn ochr â'r gyfraith bresennol.

## Cefndir

Ymdrinnir â'r mwyafrif helaeth o achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr mewn achos diannod yn y llys ynadon. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau llai difrifol (fel ymosodiad cyffredin a difrod troseddol gwerth isel) sy'n "ddiannod yn unig", ynghyd â'r rhan fwyaf o droseddau "neillffordd" (hynny yw, troseddau y gellir eu profi'n ddiannod yn y llys ynadon neu drwy dditiad yn Llys y Goron). Mae hefyd yn cynnwys y mwyafrif llethol o dreialon sy'n cynnwys plant dan oed, a glywir mewn math arbenigol o lys ynadon o'r enw'r Llys Ieuenctid. Mae treialon mewn llysoedd ynadon yn cael eu clywed naill ai gan banel o ynadon lleyg, neu gan un Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon).


Mae achosion mwy difrifol yn cael eu profi "trwy dditiad" yn Llys y Goron. Oni bai fod y diffynnydd yn pledio'n euog, bydd yr achos bron bob amser yn cael ei glywed gan reithgor.

Mae'r modd y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r llysoedd hyn yn amrywio yn ôl a gawsant eu rhoi ar brawf yn ddiannod neu ar dditiad. Apêl i Lys y Goron yw'r llwybr arferol o apelio yn erbyn penderfyniadau mewn llys ynadon, gan gynnwys euogfarnau a dedfryd. Fodd bynnag, gellir herio penderfyniadau mewn achos diannod (gan gynnwys rhai penderfyniadau Llys y Goron mewn achos diannod) yn yr Uchel Lys hefyd. Gwrandewir ar apeliadau o Lys y Goron mewn treialon drwy dditiad gan Adran Droseddol y Llys Apêl.[1]

### Achos diannod




### Achos drwy dditiad




1 Weithiau bydd achos a roddir ar brawf gan ynadon yn cael ei anfon i Lys y Goron ar gyfer dedfrydu. Yna, mae apêl yn erbyn dedfryd yn mynd i'r Llys Apêl.

# Apeliadau mewn achos diannod

Ar hyn o bryd, mae tair ffordd o herio penderfyniad y llys ynadon:

1. apêl i Lys y Goron;
2. apêl i'r Uchel Lys am ei farn ar achos datganedig; a
3. chais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Mae'r rhan fwyaf o apeliadau o'r llys ynadon yn cael eu gwneud i Lys y Goron. Yn 2022, gwrandawyd ar fwy na 6,000 apêl gan lysoedd ynadon yn Llys y Goron. Roedd tua 44% yn apeliadau yn erbyn rheithfarn, 47% yn apelio yn erbyn dedfryd, ac mae'r gweddill yn apelio yn erbyn penderfyniadau eraill.[2]

## Apêl i Lys y Goron

Lle bydd diffynnydd wedi'i euogfarnu a'i ddedfrydu gan y llys ynadon gall apelio yn erbyn ei euogfarn (os gwnaeth bledio'n ddieuog i'r trosedd) neu'r ddedfryd i Lys y Goron. Nid oes angen i'r diffynnydd gael caniatâd i apelio os gwneir yr apêl o fewn 15 diwrnod i'r penderfyniad perthnasol. Fodd bynnag, mae angen caniatâd Llys y Goron i apelio y tu allan i'r terfyn amser.

Mae apeliadau yn Llys y Goron yn gweithredu drwy ailwrandawiad. Gellir cyflwyno tystiolaeth newydd nad yw wedi'i chyflwyno yn y treial neu'r gwrandawiad dedfrydu gwreiddiol ar apêl. Mae gan Lys y Goron y pŵer i gadarnhau neu newid penderfyniad y llys ynadon ac i anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon gyda'i farn. Yn dilyn apêl, gall Llys y Goron ddedfrydu'r apelydd i ddedfryd fwy llym na'r ddedfryd a roddwyd gan y llys ynadon.

## Apêl drwy gyfrwng achos datganedig

Gellir apelio yn erbyn euogfarn, dedfryd neu ryddfarn i'r Uchel Lys drwy achos datganedig ar y sail ei fod yn groes i'r gyfraith neu wedi rhagori ar awdurdodaeth y llys. Mae'r llwybr apelio hwn ar gael i'r erlyniad ac i unrhyw berson sydd wedi'i "dramgwyddo" gan y penderfyniad, yn ogystal â'r diffynnydd (ac eithrio lle maent wedi apelio yn erbyn yr un euogfarn neu ddedfryd i Lys y Goron).

Rhaid gwneud cais i'r llys ynadon i ddatgan achos o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad perthnasol. Rhaid i'r achos a ddatganwyd nodi ar ba sail ffeithiol y gwnaeth y llys ynadon ei benderfyniad.

Mae'n ofynnol i'r Uchel Lys benderfynu a yw'r llys ynadon wedi dod i benderfyniad nad oedd yn rhesymol agored i'r llys ei wneud. Mae gan yr Uchel Lys y pŵer i gadarnhau neu newid penderfyniad y llys ynadon ac i anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon gyda'i farn.

## Adolygiad barnwrol

Gall penderfyniad y llys ynadon hefyd gael ei herio gan y diffynnydd a'r erlyniad drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys, ar y sail ei fod yn anghyfreithlon neu'n afresymegol neu y cafwyd anghywirdeb trefniadol. Mae cais am adolygiad barnwrol yn gofyn am ganiatâd gan yr Uchel Lys, y mae'n rhaid ei gael "yn brydlon" a dim hwyrach na thri mis o ddyddiad y penderfyniad perthnasol.

Mae gan yr Uchel Lys y pŵer i ddiddymu penderfyniad y llys ynadon, gan gynnwys euogfarn, ac i anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon i'w ailystyried yn unol â'i ganfyddiadau.

2 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau Chwarterol y Llysoedd Troseddol, Ionawr i Fawrth 2023.

## Cynigion i ddiwygio

Mae adolygiadau blaenorol wedi canfod bod y ffordd y mae apeliadau o'r llys ynadon yn gweithredu yn ddryslyd ac yn arwain at achosion yn cael eu dyblygu, o ystyried y gorgyffwrdd rhwng y tri llwybr herio a'r gofyniad am ailwrandawiad yn Llys y Goron. Mae nifer o gynigion ar gyfer diwygio wedi cael eu cyflwyno, gan gynnwys:

1. Disodli'r hawl awtomatig i apelio i Lys y Goron â gofyniad i wneud cais am ganiatâd i apelio.
2. Disodli'r gofyniad am ailwrandawiad yn Llys y Goron ag adolygiad o benderfyniad y llys ynadon gan Lys y Goron, felly byddai Llys y Goron yn archwilio'r ffordd y cynhaliwyd y treial i benderfynu a ddylai'r euogfarn neu'r ddedfryd sefyll.
3. Dileu'r gweithdrefnau ar gyfer herio penderfyniadau ynadon yn yr Uchel Lys (ar ffurf achos datganedig ac adolygiad barnwrol) fel bod pob apêl o'r llys ynadon yn cael ei gwneud i Lys y Goron.

Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch newid y broses bresennol mewn perthynas ag apeliadau i Lys y Goron, gan y gallai fod goblygiadau difrifol i'r ffordd y mae'r llysoedd ynadon yn gweithredu. Byddai'n galw am gofnodi'r achos yn y llys ynadon a darparu rhesymau manwl i ynadon am eu penderfyniadau, a allai effeithio ar allu'r llys ynadon i ddelio â'i nifer fawr o achosion.

**Cwestiwn Crynodeb 1**

A oes angen diwygio'r prosesau a ddefnyddir i apelio yn erbyn penderfyniadau llysoedd ynadon mewn achosion troseddol neu eu hadolygu fel arall?



# Apeliadau mewn achos trwy dditiad

Mae troseddau difrifol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu profi "trwy dditiad" yn Llys y Goron, bron bob amser gerbron rheithgor.[3]

Mae'r ffaith bod treialon drwy dditiad yn cael eu clywed gan reithgor yn arwain at ganlyniadau pwysig i'r gallu i apelio yn erbyn euogfarn.

1. Nid yw rheithgorau yn rhoi rhesymau dros eu rheithfarnau.
2. Mae trafodaethau'r rheithgorau'n gyfrinachol.
3. Mae'r Llys Apêl yn amharod iawn i ddiddymu euogfarn gan reithgor a gyfarwyddwyd yn briodol.

## Apeliadau yn erbyn euogfarn

Gall person a geir yn euog drwy dditiad gael caniatâd i apelio yn erbyn ei euogfarn i'r Llys Apêl. Rhaid gwneud cais am ganiatâd i apelio o fewn 28 diwrnod i'r euogfarn, hyd yn oed os nad yw'r person yn cael ei ddedfrydu tan ddyddiad diweddarach. Gall y Llys Apêl ymestyn y terfyn amser hwn, ond dim ond pan fo'r ymgeisydd yn gallu dangos bod rheswm da ac eithriadol dros ganiatáu apêl y tu allan i'r terfyn.

Yr unig sail dros apelio yw bod yr euogfarn yn "anniogel". Nid yw "anniogel" wedi'i ddiffinio. Nid yw wedi'i gyfyngu i sefyllfaoedd lle mae'r person yn ffeithiol ddieuog, ond mae hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle:

1. nad oedd y dystiolaeth yn ddigonol i reithgor a gyfarwyddwyd yn briodol fod yn sicr bod yr apelydd wedi cyflawni'r trosedd;
2. na chafodd yr apelydd dreial teg; neu
3. roedd yr erlyniad yn gyfystyr â cham-drin y broses.

## Tystiolaeth newydd

Mae Deddf Apeliadau Troseddol 1968 yn nodi y gall y Llys Apêl dderbyn tystiolaeth newydd "os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n berthnasol er budd cyfiawnder". Wrth benderfynu a ddylid derbyn tystiolaeth newydd, rhaid i'r Llys Apêl ystyried:

1. a yw'n ymddangos bod modd credu'r dystiolaeth newydd;
2. a yw'n ymddangos y gall y dystiolaeth ddarparu unrhyw sail dros ganiatáu'r apêl;
3. a fyddai'r dystiolaeth wedi bod yn dderbyniol yn achos Llys y Goron; ac
4. a geir esboniad rhesymol am y methiant i'w gyflwyno yn achos Llys y Goron.

Fodd bynnag, er cyfeirir at y rhain yn aml fel "amodau", mae gan y Llys Apêl hawl i dderbyn y dystiolaeth newydd hyd yn oed os na chânt eu bodloni.

## Tystiolaeth newydd neu wall cyfreithiol a'r prawf "effaith ar y rheithgor"



Os oes tystiolaeth newydd neu os canfuwyd gwall cyfreithiol, mater i'r Llys Apêl yw penderfynu a yw hyn yn gwneud yr euogfarn yn anniogel.

Nid yw'n ofynnol i'r Llys Apêl ystyried a allai'r rheithgor fod wedi cael yr apelydd yn ddieuog pe bai wedi cael y dystiolaeth newydd, neu pe bai wedi cael cyfarwyddyd priodol.

3 Ceir darpariaethau ar gyfer cynnal treialon heb reithgor lle mae pobl wedi ymyrryd â'r rheithgor neu lle mae risg o ymyrryd â'r rheithgor.

Fodd bynnag, yn *Pendleton* dywedwyd y "byddai fel arfer yn ddoeth i'r Llys Apêl, mewn achos o unrhyw anhawster, brofi ei farn dros dro ei hun drwy ofyn a allai'r dystiolaeth, os rhoddwyd yn y treial, fod wedi effeithio'n rhesymol ar benderfyniad y rheithgor i roi euogfarn."[4]

**Cwestiwn Crynodeb 2**

A oes tystiolaeth bod dull y Llys Apêl o asesu diogelwch euogfarn yn llesteirio'r gwaith o gywiro camweinyddiad cyfiawnder?

## Camau adfer ar ôl diddymu euogfarn

Pan fydd euogfarn yn cael ei diddymu, gall y llys orchymyn ail dreial. Os gorchmynnir ail dreial, rhaid i'r apelydd llwyddiannus gael ei areinio (hynny yw, ei ddwyn gerbron llys i gyflwyno ple) o fewn dau fis. Gall y llys ymestyn hyn. Fodd bynnag, os yw'r person yn cael ei areinio y tu allan i'r cyfnod hwn heb ganiatâd y llys, bydd yr achos yn ddi-rym (hynny yw, canfyddir bod yr ail dreial, ac unrhyw euogfarn a gododd ynddo, yn annilys).

Mae gan y Llys Apêl y pŵer i gyfnewid euogfarn am drosedd arall. Rhaid iddo fod yn drosedd y gallai'r apelydd fod wedi'i gael yn euog ohono drwy dditiad a oedd yn sail i dreial Llys y Goron.

Pan ddedfrydwyd person am droseddau lluosog, a bod y dedfrydau hyn yn gysylltiedig, a bod yr apelydd yn llwyddiannus wrth apelio un neu fwy o'r euogfarnau hynny, ond nid pob un ohonynt, gall y Llys Apêl ail-ddedfrydu'r apelydd am unrhyw droseddau cysylltiedig y mae'n dal i gael ei ddyfarnu'n euog ohonynt.

Fodd bynnag, ni all y ddedfryd a roddir fod yn fwy difrifol na'r ddedfryd, gyda'i gilydd, a roddwyd yn wreiddiol ar gyfer yr holl droseddau cysylltiedig.

Mewn rhai amgylchiadau, gall person sydd wedi'i gael yn euog ar gam fod yn gymwys i gael iawndal. Ni fydd iawndal yn daladwy oni bai fod euogfarn y person wedi'i diddymu (neu ei fod wedi cael maddeuant) oherwydd bod tystiolaeth sydd newydd ei darganfod yn dangos bod achos o gamweinyddu cyfiawnder wedi digwydd. Ni fydd iawndal yn daladwy os cafodd yr euogfarn ei diddymu mewn apêl "mewn pryd", a dim ond pan ellir dangos y tu hwnt i amheuaeth resymol nad oedd y person wedi cyflawni'r trosedd y bydd yn daladwy.

**Cwestiwn Crynodeb 3**

A yw'r opsiynau a'r camau adfer sydd ar gael yn dilyn diddymu euogfarn gan y Llys Apêl yn ddigonol ac yn briodol?

## Apeliadau yn erbyn dedfryd



Dan Ddeddf Apeliadau Troseddol 1968, gall person a ddedfrydir yn euog gan reithgor apelio yn erbyn ei ddedfryd i'r Llys Apêl. Nid yw'r prawf ar gyfer apêl yn erbyn euogfarn yn statudol. Bydd y llys yn penderfynu a yw'r ddedfryd a roddir gan Lys y Goron "heb ei chyfiawnhau gan y gyfraith", "yn amlwg yn orfodol" neu'n "anghywir mewn egwyddor".

Lle bo'r apelydd wedi'i gael yn euog o droseddau lluosog, mae'n ofynnol i'r llys archwilio'r ddedfryd yn ei chyfanrwydd.

4 [2001] UKHL 66.

Yn hanesyddol, roedd apeliadau yn erbyn dedfryd yn ffordd bwysig o annog cysondeb a gosod canllawiau ar gyfer llysoedd dedfrydu. Mae cyflwyno canllawiau dedfrydu ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau (a darpariaethau statudol sy'n llywodraethu'r "man cychwyn" wrth bennu'r cyfnod byrraf ar gyfer llofruddiaeth) wedi newid natur apeliadau dedfrydu, sydd nawr yn aml yn mynd ati i ystyried a yw troseddau wedi'u categoreiddio'n briodol a'r canllawiau wedi'u dilyn yn briodol.

Fodd bynnag, mae gan y Llys Apêl rôl barhaus i'w chwarae wrth osod canllawiau ar gyfer llysoedd dedfrydu, er enghraifft lle nad oes canllaw ar gyfer trosedd, neu mae'r mater yn ymwneud ag egwyddor gyffredinol o ymarfer dedfrydu.

**Cwestiwn Crynodeb 4**

A yw pwerau'r Llys Apêl mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn dedfryd yn ddigonol ac yn briodol?



## Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

Sefydlwyd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) ym 1995 fel corff annibynnol a all ymchwilio i achosion honedig o gamweinyddu cyfiawnder a chyfeirio achosion yn ôl at y Llys Apêl (neu, lle cafodd yr achos brawf diannod, at Lys y Goron).

Nid oes terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais i'r CCRC. Mae gan y CCRC ystod o bwerau ymchwilio statudol, gan gynnwys y pŵer i gael gafael ar ddogfennau a phenodi swyddog ymchwilio, i helpu i archwilio'r achos.

Dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y gall y CCRC gyfeirio achos am apêl:

1. mae "posibilrwydd gwirioneddol" na fyddai'r llys yn cadarnhau'r euogfarn neu'r ddedfryd oherwydd dadl neu dystiolaeth newydd nad yw wedi'i chodi yn yr achos gwreiddiol neu ar apêl; ac
2. apeliwyd yn erbyn yr euogfarn neu'r ddedfryd yn flaenorol (oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau cyfeirio).

Mae'r prawf sy'n cael ei ddefnyddio wedi cael ei feirniadu gan rai fel un sy'n cyfyngu'n ormodol, ac mae eraill wedi beirniadu'r ffordd mae'r CCRC yn ei ddefnyddio. Canfu adolygiad tair blynedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r CCRC yn 2013:

**Bod nifer o ymatebwyr sy'n feirniadol o'r CCRC yn credu ei fod yn meddu ar y pwerau iawn i gyfeirio achosion ond yn eu dehongli'n rhy gul. Mae eraill yn feirniadol o'r Llys Apêl ei hun sydd, yn eu barn nhw, yn atal y CCRC rhag cyfeirio achosion lle mae amheuaeth ynghylch euogrwydd y person, ond nad oes tystiolaeth na dadl newydd – gan fod y Llys Apêl wedi ei gwneud yn glir na fydd yn ystyried achosion o'r fath.**


Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r adolygiad a fynegodd farn mai dyma'r prawf cywir ar gyfer cyfeirio achosion i'r Llys Apêl.[5]

Fodd bynnag, yn 2021, dywedodd Comisiwn San Steffan ar Gamweinyddu Cyfiawnder:

**Mae'r prawf yn annog y CCRC i fod yn rhy ymostyngol i'r Llys Apêl a cheisio ail-ddyfalu'r hyn y gallai'r Llys ei benderfynu, yn hytrach na dod i farn annibynnol ynghylch camweinyddu cyfiawnder posibl.[6]**

5 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Adolygiad Tair Blynedd: Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol* (2013) t 9.
6 Comisiwn San Steffan ar Gamweinyddu Cyfiawnder *Er Budd Cyfiawnder* (2021) t 36.

Data achosion CCRC, Ebrill 1997 i Fai 2023




**Cwestiwn Crynodeb 5**

A oes tystiolaeth bod y prawf cyfeirio a ddefnyddir gan y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol wrth ystyried a ddylid cyfeirio apêl yn llesteirio'r gwaith o gywiro camweinyddiad cyfiawnder? Os felly, a oes unrhyw brofion eraill a fyddai'n galluogi cywiro camweinyddiad cyfiawnder yn well?

## Y prawf " anghyfiawnder sylweddol" ar gyfer apeliadau sy'n seiliedig ar newid yn y gyfraith

Lle mae'r gyfraith yn cael ei newid gan ddeddfwriaeth, nid yw hyn yn effeithio ar ddilysrwydd euogfarnau a ddygwyd o dan y gyfraith flaenorol.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n gymhleth yn achos datblygu'r gyfraith gwlad (hynny yw, y gyfraith fel y'i datblygwyd a'i chymhwyso gan y llysoedd). Mewn achosion o'r fath, nid yw'r llysoedd yn newid y gyfraith yn arfaethedig, ond yn cywiro camddealltwriaeth neu gamgymhwyso blaenorol. Mae'r gyfraith droseddol fel arfer yn datblygu drwy benderfyniadau mewn apeliadau. Er enghraifft, mae euogfarn yr apelydd yn cael ei diddymu oherwydd bod llys y treial, wrth gymhwyso'r hyn y credid ei fod yn ddehongliad cywir o'r gyfraith, yn cael ei ystyried o fod wedi cymhwyso'r dehongliad anghywir o'r gyfraith.

Mae'r mater hwn wedi codi'n ddiweddar mewn perthynas â nifer fawr o bobl a gafwyd yn euog o dan athrawiaeth "menter ar y cyd" (neu, yn bendant, "atebolrwydd affeithiwr parasitig"). Yn achos *Jogee* yn 2016,[7] penderfynodd y Goruchaf Lys fod y llys wedi gwneud "camgymeriad" wrth ganiatáu i berson gael ei ddyfarnu'n euog fel cefnogwr i drosedd difrifol ar y sail ei fod yn rhan o fenter droseddol ar y cyd â pherson arall, ac wedi rhagweld y gallai'r person gyflawni trosedd fwy difrifol.

Er bod achosion lle mae cyfraith gwlad yn cael ei "chywiro" yn gweithredu'n ôl-weithredol ar gyfer yr unigolyn dan sylw yn yr achos hwn, nid yw'r canlyniad yn annilysu pob euogfarn o dan yr hen gyfraith. Pe byddai newid yn y gyfraith yn rhoi sail i unrhyw berson a gafwyd yn euog i herio ei euogfarn neu ei ddedfryd, gallai hyn arwain at nifer o apeliadau na ellir eu rheoli.

Ar ben hynny, ni fydd newid yn y gyfraith bob amser yn golygu bod y sawl a gafwyd yn euog o dan yr "hen" gyfraith wedi cael ei ryddhau pe bai'r gyfraith wedi cael ei rhoi ar waith yn gywir. Mewn rhai achosion, gallai newid yn y gyfraith olygu y dylai fod wedi ei gael yn euog o drosedd gwahanol, a allai fod yr un mor ddifrifol. Mewn achosion eraill, y mwyaf y gellid dod i'r casgliad oedd y gallai'r person fod wedi cael ei ryddhau pe bai'r gyfraith wedi cael ei rhoi ar waith yn gywir.

Pan fydd person yn dymuno herio ei euogfarn neu ei ddedfryd ar sail newid yn y gyfraith, mae'r Llys Apêl yn defnyddio mecanwaith gofynion caniatâd i gyfyngu ar apeliadau. Os bydd yr apêl yn cael ei chyflwyno mewn pryd – cyn pen 28 diwrnod i euogfarn neu ddedfryd – ymdrinnir â'r apêl o dan y gyfraith wedi'i chywiro. Fodd bynnag, dim ond os yw'r person yn gallu dangos "anghyfiawnder sylweddol" y rhoddir caniatâd i apelio y tu hwnt i'r terfyn amser. Mae'r llys yn defnyddio'r un prawf os bydd yr achos yn cael ei gyfeirio gan y CCRC, felly cyn cyfeirio achos, rhaid i'r CCRC ystyried a oes posibilrwydd gwirioneddol y bydd y llys yn derbyn bod cyfiawnder sylweddol wedi'i ddangos.

7 *R v Jogee, Ruddock v Y Frenhines Queen* [2016] UKSC 8, UKPC 7.

## Menter ar y cyd

Pan fydd dau neu fwy o bartïon yn cyflawni trosedd gyda'i gilydd, maent i gyd yn agored i gael eu dyfarnu'n euog o'r trosedd. Mae hyn yn cynnwys y rhai a anogodd neu a helpodd i gyflawni'r trosedd.  Er enghraifft, mae tri pherson yn lladrata gyda'i gilydd mewn banc: mae un yn bygwth y staff gyda gwn; mae'r ail yn rhoi'r arian mewn bag; mae'r trydydd yn cadw golwg ac yn gyrru'r cerbyd i ddianc. Er mai dim ond un o'r tri sydd wedi bygwth trais, a dim ond un sydd wedi gafael yn yr arian, mae'r tri yn euog o ladrad.

Dyma'r math arferol o fenter ar y cyd: nid yw'n fath o "euog drwy gysylltiad". Mae'n golygu bod yn rhaid i'r diffynnydd fod wedi ymddwyn mewn ffordd droseddol (gan gynnwys drwy annog neu helpu), a'i fod yn meddu ar unrhyw elfen feddyliol angenrheidiol: er enghraifft, mewn achos o lofruddiaeth, ei fod yn bwriadu achosi marwolaeth neu anaf difrifol.

O dan athrawiaeth "atebolrwydd affeithiwr parasitig", os yw un parti mewn menter ar y cyd wedi rhagweld y gallai'r parti arall gyflawni trosedd fel rhan o'r fenter honno ar y cyd, gellid cael y naill a'r llall yn euog o'r trosedd arall. Er enghraifft, pe bai dau berson yn cytuno i ladrata gyda'i gilydd, ac yn ystod y lladrad hwnnw, mae un o'r partïon yn trywanu deiliad tŷ, gan fwriadu achosi niwed difrifol, gellid cael y person arall yn euog o'r trywanu pe bai wedi rhagweld y gallai hyn ddigwydd. Pe bai deiliad y tŷ yn marw, byddai hynny'n llofruddiaeth.

Yn *Jogee*, penderfynodd y Goruchaf Lys fod hyn yn anghywir. Er mwyn ei gael yn euog o'r trosedd mwy difrifol, roedd yn rhaid i'r parti i'r fenter ar y cyd fwriadu, nid dim ond rhagweld, y byddai'r parti arall sy'n gysylltiedig â'r fenter yn cyflawni'r trosedd. Gallai'r bwriad hwnnw fod yn amodol – er enghraifft, os oeddent yn bwriadu trywanu'r deiliad tŷ, os oedd angen. Roedd rhagweld yn rhywbeth y gallai (ond nad oes angen) rheithgor ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r bwriad (amodol) angenrheidiol.



## Beth yw “ anghyfiawnder sylweddol”?

Yn *Johnson*,[8] dywedodd y Llys Apêl, wrth benderfynu a yw’r prawf “anghyfiawnder sylweddol” wedi’i fodloni, byddai’n “rhoi sylw’n bennaf ac fel arfer i gryfder yr achos a gyflwynwyd, sef y byddai’r newid yn y gyfraith, mewn gwirionedd, wedi gwneud gwahaniaeth” i’r canlyniad. Dehonglir hyn fel golygu bod yn rhaid i’r apelydd ddangos na fyddai wedi cael ei ddyfarnu’n euog pe bai’r gyfraith wedi cael ei rhoi ar waith yn gywir.

Fodd bynnag, nid yw profi na fyddai person wedi cael ei ddyfarnu’n euog o reidrwydd yn ddigon. Yn *Ordu*,[9] penderfynodd y Llys Apêl nad oedd y ffaith bod rhywun wedi’i gael yn euog o drosedd, a’i fod yn ddieuog, yn ôl sut mae’r gyfraith yn cael ei deall yn iawn erbyn hyn, o reidrwydd yn ddigon i fod yn anghyfiawnder sylweddol. Er ei bod yn amlwg bod gan Ordu amddiffyniad i’r trosedd y cafodd ei ddyfarnu’n euog ohono, gwrthododd y llys ddiddymu ei euogfarn, gan ddweud

> **Erbyn hyn, mae wedi byw drwy holl ganlyniadau andwyol [yn sgil] yr euogfarn ac wedi dechrau byw bywyd hapusach, mwy sefydlog a diogel yn y Deyrnas Unedig. Mae’r euogfarn a’r ddedfryd amser maith yn ôl bellach, ac ni fydd diddymu’r euogfarn yn unioni’r atgofion annymunol sydd bellach ar ôl.**

Fodd bynnag, mewn achosion tebyg eraill, mae’r llys wedi bod yn barod i ddweud bod anghyfiawnder sylweddol o ran cynnal eugofarn, er bod y ddedfryd wedi’i chwblhau, er enghraifft, oherwydd bod gan y ddedfryd ganlyniadau o ran statws mewnfudo neu gyflogaeth person.

Mater arall y bydd y Llys Apêl yn ei ystyried fydd a fyddai’r apelydd wedi bod yn euog o droseddau difrifol eraill. Rhywbeth sy’n peri anhawster penodol mewn achosion yn dilyn *Jogee* lle cafwyd yr apelydd yn euog o lofruddiaeth yw y byddai’r apelydd bron bob amser wedi bod yn euog o ddynladdiad pe na fyddai’n euog o lofruddiaeth.

Fodd bynnag, mae dull gweithredu’r llys yn y fan hon wedi cael ei feirniadu gan sylwebyddion am beidio â derbyn bod gwahaniaeth sylweddol rhwng euogfarn am lofruddiaeth, sy’n cynnwys dedfryd oes orfodol ac sy’n golygu bod y person, hyd yn oed os caiff ei ryddhau, yn agored i gael ei alw’n ôl am weddill ei oes, a dynladdiad, a allai arwain at ddedfryd am gyfnod penodol.

**Cwestiwn Crynodeb 6**

A oes tystiolaeth bod defnyddio’r prawf “ anghyfiawnder sylweddol” ar gyfer apeliadau a ddygir y tu allan i’r amser ar sail newid yn y gyfraith yn llesteirio cywiro camweinyddiad cyfiawnder?

8 [2016] UKSC 8.
9 [2017] EWCA Crim 4.

# Apeliadau ar wahân i rai gan y diffynnydd

Hyd yma, mae'r crynodeb hwn wedi canolbwyntio ar apeliadau gan y sawl a gafwyd yn euog. Fodd bynnag, gall eraill ddwyn apeliadau hefyd. Er enghraifft:

1. Gall yr erlyniad apelio penderfyniadau mewn achosion diannod, drwy apêl ar ffurf achos datganedig neu drwy ddwyn achos adolygiad barnwrol.
2. Gall yr erlyniad apelio yn erbyn rhai penderfyniadau a wnaed mewn achosion paratoadol, ac yn erbyn dyfarniadau "terfynu" yn ystod treial.
3. Gellir apelio yn erbyn cyfyngiadau adrodd a wneir mewn achos ar dditiad i'r Llys Apêl, er enghraifft gan newyddiadurwr, papur newydd neu ddarlledwr.
4. Gall trydydd partïon sy'n destun gorchymyn a wneir mewn achos troseddol – gan gynnwys rhieni sy'n destun gorchymyn rhianta mewn achos yn erbyn plentyn – apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Ymdrinnir yn fanylach â hawliau'r rhai ar wahân i'r diffynnydd i apelio yn erbyn penderfyniadau mewn achosion troseddol yn y papur materion. Yn y crynodeb hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddau fater: achosion sy'n arwain at ddiddymu rhyddfarn, a chyfeiriadau at y Llys Apêl gan y Twrnai Cyffredinol.

## Apeliadau rhyddfarnau llygredig a "gwahardd cosbi ddwywaith"

Yn gyffredinol, nid oes hawl gan yr erlyniad nac unrhyw un arall i apelio yn erbyn rhyddfarn mewn achos ar dditiad. Fodd bynnag, mae dau eithriad cymharol ddiweddar i'r egwyddor hon.

Yn gyntaf, pan fydd person wedi'i gael yn euog o "drosedd gweinyddu cyfiawnder" (fel ymyrryd â rheithgor neu fygwth tystion) mewn perthynas ag achos a arweiniodd at ryddfarn, a bod "posibilrwydd gwirioneddol" na fyddai'r person a gafodd ei ryddhau yn yr achos hwnnw wedi cael ei ryddhau oni bai am yr ymyrraeth, gall yr Uchel Lys ddiddymu'r rhyddfarn. Cyfeirir at y rhain fel "rhyddfarnau llygredig".

Yn ail, o dan ddiwygiad a gyflwynwyd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003, ar gyfer rhai troseddau difrifol iawn, gall yr erlyniad wneud cais i ddiddymu rhyddfarn gan y Llys Apêl os oes tystiolaeth newydd gref yn erbyn y rhyddfarnedig. Dim ond gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y gellir dwyn achos. Yn y papur materion, rydym yn cyfeirio at y rhain fel apeliadau "gwahardd cosbi ddwywaith".

Roedd y weithdrefn "rhyddfarn lygredig" yn eithriad cynnar i'r egwyddor o "wahardd cosbi ddwywaith" ac mae'r trothwy ar gyfer rhoi rhyddfarn o'r neilltu yn un uchel, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gael ei ddyfarnu'n euog mewn gwirionedd o drosedd "gweinyddu cyfiawnder". Felly, mae'r amodau'n fwy cyfyngol na'r rhai ar gyfer cyflwyno apêl "gwahardd cosbi ddwywaith" ar sail tystiolaeth newydd gref. Er enghraifft, pe bai'r person a gyhuddir o ymyrryd â'r treial lle cafodd y person ei ryddhau yn marw cyn y gellid ei erlyn, ni fyddai'n bosibl diddymu'r rhyddfarn.

**Cwestiwn Crynodeb 7**

A oes gennych unrhyw farn am yr amgylchiadau lle gellid diddymu rhyddfarn, gan gynnwys y gyfraith sy'n ymwneud â rhyddfarnau llygredig yn dilyn ymyrryd â chwrs cyfiawnder?

## Cyfeiriadau'r Twrnai Cyffredinol

Mae dau amgylchiad lle gall y Twrnai Cyffredinol, ar ran y wladwriaeth, gyfeirio achos i'r Llys Apêl. Y cyntaf yw pan fydd person wedi'i gael yn ddieuog o drosedd, ac mae'r Twrnai'n ceisio dyfarniad ar bwynt cyfreithiol sydd wedi codi yn ystod yr achos. Nid yw'r cyfeiriad yn effeithio ar y rhyddfarn. Fodd bynnag, mae'n galluogi i wall cyfreithiol gael ei gydnabod a'i gywiro, fel nad yw'r gwall yn cael ei ddilyn mewn achosion eraill.

Yr ail yw gallu'r Twrnai Cyffredinol i gyfeirio dedfryd at y Llys Apêl ar y sail ei bod "yn rhy drugarog". Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i rai troseddau penodol: y rheini sy'n "dditiadwy yn unig", ac eraill sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Adolygiadau Dedfrydu) 2006.

Mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn aml yn cael gwybod am achosion o ganlyniad i bryder a fynegwyd gan bartïon sydd â diddordeb (fel dioddefwyr neu unigolion sydd wedi cael profedigaeth) neu ASau, neu yn dilyn sylw yn y cyfryngau.

Rhaid rhoi hysbysiad o'r cyfeiriad i'r Llys Apêl cyn pen 28 diwrnod i'r dedfrydu. Yn wahanol i'r terfyn amser tebyg i ddiffynnydd apelio yn erbyn ei ddedfryd, mae hwn yn derfyn amser llwyr. Gall hyn achosi rhai anawsterau. Yn gyntaf, mae gan lys y treial 56 diwrnod i gywiro gwall dedfrydu o dan y "rheol llithro". Os yw'r ddedfryd yn anghyfreithlon, fel arfer byddai'n fwy priodol ceisio ei chywiro o dan y rheol llithro. Fodd bynnag, os na wneir hyn cyn pen 28 diwrnod, bydd y cyfle i'w herio fel dedfryd rhy drugarog yn cael ei golli. Yn ail, pan fydd cyfyngiadau adrodd ar waith, efallai mai dim ond ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cyfeirio fynd heibio y bydd y cyhoedd yn dod yn ymwybodol o'r ddedfryd.

**Cwestiwn Crynodeb 8**

A yw pwerau'r Twrnai Cyffredinol i gyfeirio mater at y Llys Apêl yn ddigonol ac yn briodol?

**Cyfeiriadau ar gyfer Dedfrydau Rhy Drugarog, 2021**

**676** o ddedfrydau wedi'u hystyried gan y Twrnai Cyffredinol

**151** o ddedfrydau wedi'u cyfeirio at y Llys Apêl

- Y ddedfryd wedi cynyddu: **106**
- Caniatâd wedi'i roi, dedfryd heb ei newid: **10**
- Caniatâd wedi'i wrthod: **35**

# Cadw a datgelu tystiolaeth a chofnodion achosion

Mae ein cylch gorchwyl yn mynnu ein bod yn ystyried a yw apeliadau'n cael eu llesteirio gan gyfreithiau sy'n rheoli cadw a datgelu tystiolaeth a chadw a mynediad at gofnodion achosion.

## Cadw tystiolaeth

Nodir y cyfnodau cadw sylfaenol ar gyfer deunydd a gasglwyd yn ystod ymchwiliad troseddol yn y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 23(1) o Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA 1996). Yn ôl y Cod Ymarfer, yn dilyn euogfarn, rhaid cadw'r "holl ddeunydd a allai fod yn berthnasol" o leiaf:

1. pan roddir dedfryd o garchar neu orchymyn ysbyty, nes y caiff y person ei ryddhau o'r carchar neu ei ryddhau o'r ysbyty; ac
2. ym mhob achos arall, am chwe mis o ddyddiad yr euogfarn.[10]

Os yw apêl yn yr arfaeth ar ddiwedd y cyfnod byrraf uchod neu os yw'r CCRC yn ystyried cais am gyfeiriad, rhaid cadw'r holl ddeunydd a all fod yn berthnasol nes y penderfynir ar yr apêl neu nes y bydd y CCRC yn penderfynu peidio â chyfeirio at y llys apeliadol.[11]

## Datgelu tystiolaeth ar ôl euogfarn

Mae CPIA 1996 yn gosod dyletswyddau datgelu statudol ar yr erlyniad cyn ac yn ystod y treial. Fodd bynnag, mae datgelu ar ôl euogfarn yn cael ei lywodraethu gan gyfraith gwlad. Yn achos *Nunn*,[12] penderfynodd y Goruchaf Lys, tra bo apêl yn yr arfaeth, fod y ddyletswydd i ddatgelu yn ymestyn i "unrhyw ddeunydd sy'n berthnasol i sail apêl a nodwyd, ac a allai fod o gymorth i'r apelydd". Mewn amgylchiadau eraill ar ôl euogfarn, lle daw'r erlyniad neu'r heddlu i feddiant ddeunydd "a allai roi sail gredadwy dros ddadlau bod yr euogfarn yn anniogel", mae dyletswydd arnynt i ddatgelu deunydd o'r fath i'r person a geir yn euog o'r trosedd. Ychwanegodd y llys "os oes posibilrwydd gwirioneddol y gallai ymchwiliad pellach ddatgelu rhywbeth sy'n effeithio ar ddiogelwch yr euogfarn, dylid cynnal yr ymchwiliad hwnnw".

Dywedodd y llys y gallai eraill, fel cynrychiolwyr cyfreithiol, wneud cais am ddatgeliad ar ôl euogfarn i'r heddlu neu'r erlyniad ac "os yw'n ymddangos bod posibilrwydd gwirioneddol y bydd ymchwiliad pellach yn datgelu rhywbeth o werth gwirioneddol, dylid cydweithredu i gynnal yr ymchwiliadau pellach hynny". Nodir fod y CCRC yn darparu rhwyd ddiogelwch mewn achosion lle mae anghydfod ynghylch cais am adolygu deunyddiau achos.

10 Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (adran 23(1)) Cod Ymarfer (Medi 2020) ("Cod Ymarfer CPIA").
11 Cod Ymarfer CPIA, para 5.10.
12 *R (Nunn) v Prif Gwnstabl Cwnstabliaeth Suffolk* [2014] UKSC 37, [2015] AC 225.

Fodd bynnag, mae nifer o randdeiliaid wedi dweud bod heddluoedd yn camgymhwyso *Nunn*, gan ddweud wrth ymgeiswyr sy'n gofyn am ddatgelu tystiolaeth neu fynediad at dystiolaeth ar gyfer profion bod yn rhaid iddynt fynd drwy'r CCRC.

**Cwestiwn Crynodeb 9**

A yw'r gyfraith sy'n rheoli'r broses o gadw a datgelu tystiolaeth ar ôl treial, boed yn cael ei defnyddio yn y treial ai peidio, yn foddhaol?

## Cadw cofnodion o achosion

Rheolir y gwaith o gadw cofnodion o achosion llys gan reolau a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[13] Cedwir ffeiliau achos sy'n ymwneud ag apeliadau o lysoedd ynadon am bum mlynedd. Cedwir ffeiliau achos sy'n ymwneud â threialon ar ditiad am saith mlynedd. Dylid cadw ffeiliau sy'n ymwneud ag achosion sy'n ymwneud â therfysgaeth, lladd, troseddau rhywiol, neu sy'n arwain at ddedfryd oes neu ddedfryd o fwy na saith mlynedd, neu yr apelir yn eu herbyn i'r Llys Apêl, yn barhaol.

Mae recordiadau sain analog o dreialon Llys y Goron yn cael eu dinistrio'n rheolaidd ar ôl pum mlynedd, ac mae recordiadau digidol yn cael eu cadw am saith mlynedd.[14]

Yn achos "Shrewsbury 24",[15] dywedodd y Llys Apêl nad oedd y rheolau presennol ar gadw a dinistrio cofnodion o achosion bellach yn briodol:

**Mae'r achos hwn yn rhoi'r enghraifft gliriaf o pam y gallai anghyfiawnder ddigwydd pan fydd dyddiad arferol yn cael ei bennu ar gyfer dileu a dinistrio'r papurau a oedd yn sail i achosion troseddol (y datganiadau, yr arddangosion, y trawsgrifiadau, y seiliau dros apelio ac ati), yn enwedig os oeddent yn arwain at euogfarn. Pan fydd y cofnod yn cael ei ddifrodi drwy ddinistrio'r ffeil bapur (fel oedd yn digwydd yn flaenorol) neu ddileu'n ddigidol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), nid oes modd rhagweld a allai rhywbeth ddod i'r amlwg yn ddiweddarach sy'n bwrw amheuaeth sylweddol dros ganlyniad yr achos.**

**O ystyried bod y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r deunyddiau mewn achosion troseddol bellach yn cael eu cyflwyno mewn fformat digidol, gyda'r gallu i'w storio mewn fformat wedi'i gywasgu, rydym yn awgrymu y dylid ystyried a yw'r drefn bresennol ar gyfer cadw a dileu ffeiliau digidol yn briodol, o ystyried y gall absenoldeb cofnodion llys perthnasol wneud tasg y llys hwn yn anodd iawn wrth asesu a yw euogfarn hanesyddol yn ddiogel – ac nid yw hyn yn anghyffredin.**

**Cwestiwn Crynodeb 10**

A yw'r gyfraith sy'n rheoli cadw cofnodion o achosion, a mynediad atynt, yn dilyn treial yn foddhaol?

13 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Amserlen Cadw a Gwaredu Cofnodion Llysoedd Ynadon (Gorffennaf 2020) ac Amserlen Cadw a Gwaredu Cofnodion Llys y Goron (Awst 2020).
14 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Amserlen Cadw a Gwaredu Cofnodion Llys y Goron (Awst 2020), t 5, rhes 13 y tabl.
15 *R v Warren ac eraill* [2021] EWCA Crim 413, [2021] 3 WLUK 373 yn [101] a [102].

